**ADRODDIAD I'R CABINET**
14 MEHEFIN 2022

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2021/22 –
Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2022)

**Swyddog Cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2022) o'r rhaglen gyfalaf.
- Nodi'r gwariant o £37,054,000 ar y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22, fydd yn cael ei ddefnyddio yn y datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2021/22.
- Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:
  - £173,000 lleihad mewn defnydd o fenthyca
  - £11,304,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
  - £94,000 lleihad mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
  - £426,000 lleihad mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
  - Dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
  - £1,003,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

---

## 1. Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2021/22. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 6:

Rhan 3**:** Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £139.289m am y 3 blynedd 2021/22 – 2023/24.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £11.614m ers yr adolygiad diwethaf.

Rhan 5: Manylder grantiau ychwanegol ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi eu hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:
- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2021/22 i 2022/23

## 2. Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Llwyddodd y Cyngor i wario oddeutu £37.1m yn 2021/22 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £29.9m (81%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol a £4.1m o grant cyffredinol cyfalaf.

- Mae effaith argyfwng Covid19 a'r cyfnod clo ar y rhaglen gyfalaf i'w weld yn glir ac o'r herwydd bu oediad ar nifer o gynlluniau cyfalaf unwaith eto eleni. Yn ychwanegol, oherwydd cynnydd aruthrol yn y prisiau deunyddiau adeiladu, bu oediad bwriadol i rai cynlluniau. Y cyfuniad yma o ffactorau sydd wedi arwain at y darlun yn ei gyfanrwydd.

- Yn ychwanegol i'r £31.2m adroddwyd arno yn adolygiadau blaenorol 2021/22 mae £26.8m pellach o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2021/22 i 2022/23, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

## 3. Rhaglen Gyfalaf 2021/22 i 2023/24

Gweler isod y rhaglen gyfalaf derfynol am 2021/22 ar ddiwedd Mawrth 2022, gyda'r sefyllfa ddiwygiedig arfaethedig i'r blynyddoedd dilynol.

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg | 7,521 | 17,811 | 4,310 | 29,642 | 1,424 |
| Amgylchedd | 10,288 | 4,943 | 121 | 15,352 | 464 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 60 | - | - | 60 | - |
| Cyllid | 598 | 1,828 | 838 | 3,264 | 200 |
| Economi a Chymuned | 2,882 | 2,498 | 180 | 5,560 | 469 |
| Tai ac Eiddo | 4,444 | 27,022 | 6,930 | 38,396 | 1,297 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,378 | 6,372 | 625 | 8,375 | 1,006 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1,468 | 1,486 | | 2,954 | 687 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 8,045 | 9,199 | 3,133 | 20,377 | 1,975 |
| Ymgynghoriaeth | 370 | 8,470 | 42 | 8,882 | (7) |
| Corfforaethol | - | 5,927 | 500 | 6,427 | 4,099 |
| **CYFANSWM** | **37,054** | **85,556** | **16,679** | **139,289** | **11,614** |

## 4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £11.614m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu terfynol ar gyfer 2021/22 ar ddiwedd Mawrth 2022, gyda'r sefyllfa ddiwygiedig arfaethedig i'r blynyddoedd dilynol:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH | | | | Addasiad Technegol | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | CYFANSWM | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 2,719 | 7,968 | 6,610 | 17,297 | (4,087) | 0 |
| Benthyca Arall | 266 | 9,498 | 3,289 | 13,053 | - | (173) |
| Grantiau a Chyfraniadau | 33,990 | 20,886 | 247 | 55,123 | 4,306 | 11,304 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 79 | 813 | - | 892 | - | (94) |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | - | 131 | - | 131 | (2,162) | (426) |
| Cronfa Cyfalaf | - | 18,248 | 204 | 18,452 | 8,060 | 0 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | - | 28,012 | 6,329 | 34,341 | (6,117) | 1,003 |
| **CYFANSWM** | **37,054** | **85,556** | **16,679** | **139,289** | **0** | **11,614** |

## 5. Grantiau Ychwanegol

Ers yr adolygiad diwethaf ddiwedd Tachwedd, llwyddodd y Cyngor i ddenu'r grantiau canlynol ychwanegol o £11,200k. Mae nifer o addasiadau ychwanegol eraill gan gynnwys lleihad ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £11,304k (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £3,213k Grant Cyfalaf Cyffredinol ychwanegol
- £3,100k Grantiau o'r Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau
- £1,305k Grant Cronfa Gofal Canolraddol – addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill
- £1,122k Grant Cyfalaf Prydau Ysgol am Ddim
- £525k Grant cefnogi blaenoriaethau Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru a chyflymu adferiad economaidd ôl-Covid ac Eraill
- £409k Grantiau Tai yn cynnwys Digartrefedd a Trawsnewid Trefi
- £398k Grant Cronfa Her Partneriaethau Natur Lleol
- £283k Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol a'r Gronfa Teithio Llesol

- £196k Grant cynlluniau Atal Llifogydd
- £195k Grant cyfalaf Cyfleon Chwarae Cymru
- £177k Grantiau Dechrau'n Deg a Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru
- £159k Grantiau gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol a Chyfoeth Naturiol Cymru tuag at gynlluniau gwledig a datblygiadau amgylcheddol
- £118k Grant Trawsffurfio Trefi gan Lywodraeth Cymru i addasu Storiel

## 6. Argymhellion

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- **dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2022) o'r rhaglen gyfalaf,**
- **nodi'r gwariant o £37,054,000 ar y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22, a**
- **cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (rhan 4 uchod).**

## 7. Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2021/22 – 2023/24.

## 8. Ystyriaethau Perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

## 9. Camau Nesaf ac Amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad A – Manylion y Prif Newidiadau
Atodiad B – Manylion Ail-broffilio

----------------------------

**Manylion y Prif Newididau**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi’r prif newidiadau i’r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf:

| | **2021/22**<br>**£’000** | **2022/23-2023/24**<br>**£’000** |
|---|---|---|
| **Benthyciadau Arall** | | |
| • Cywiro ariannu cynllun Atal Llifogydd o 2019-20 *(Adran Ymgynghoriaeth).* | (173) | |
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | |
| • Grant Cyfalaf Prydau Ysgol am Ddim *(Adran Addysg).* | 1,122 | |
| • Grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi blaenoriaethau Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru a chyflymu adferiad economaidd ôl-Covid ac Eraill *(Adran Economi a Chymuned).* | 525 | |
| • Grant Trawsffurfio Trefi gan Lywodraeth Cymru i addasu Storiel *(Adran Economi a Chymuned).* | 118 | |
| • Grantiau Dechrau'n Deg a Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru *(Adran Plant a Theuluoedd).* | 177 | |
| • Grant Cyfalaf Cyfleon Chwarae Cymru *(Adran Plant a Theuluoedd).* | 195 | |
| • Cronfa Gofal Canolraddol (ICF) - grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill *(Adran Plant a Theuluoedd; Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).* | 1,305 | |
| • Grant Cronfa Her Partneriaethau Natur Lleol tuag at brosiect blodau gwyllt *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 398 | |
| • Grant Llywodraeth Cymru tuag at Gynlluniau Atal Llifogydd *(Adran Ymgynghoriaeth).* | 196 | |

| | | |
|---|---|---|
| • Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).* | 283 | |
| • Grantiau gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol a Chyfoeth Naturiol Cymru tuag at gynlluniau gwledig a datblygiadau amgylcheddol *(Adran Amgylchedd).* | 159 | |
| • Grantiau Tai yn cynnwys Digartrefedd a Trawsnewid Trefi *(Adran Tai ac Eiddo).* | 409 | |
| • Grantiau o'r Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau gan Lywodraeth Cymru *(Adran Tai ac Eiddo).* | 3,100 | |
| • Grant Cyfalaf Cyffredinol ychwanegol *(Corfforaethol).* | 3,213 | |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | | |
| • Newid ariannu cyfatebol Canolfan Ailgylchu Llandygai *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | (104) | |
| **Refeniw Adrannol** | | |
| • Cyfraniadau Ysgolion tuag at gynlluniau *(Adran Addysg).* | 356 | |
| • Newid ariannu cyfatebol Canolfan Ailgylchu Llandygai *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 40 | |
| • Lleihau cyfraniad refeniw tuag at gynlluniau cyfalaf cynnal a chadw *(Adran Tai ac Eiddo).* | (950) | |
| • Cyfraniad tuag at gynnydd pryniant cyfrifiaduron yn sgil dull gweithio Covid *(Adran Cyllid).* | 198 | |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | | |
| • Cynyddu'r rhaglen Cynnal Mawr Priffyrdd Sirol trwy ddefnyddio'r gronfa benodol *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 794 | |
| • Adnewyddu cerbydau ac offer o gronfeydd adnewyddu *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 686 | |
| • Lleihad net yn y cyfraniadau tuag at amrywiol gynlluniau *(Adran Ymgynghoriaeth; Adran Tai ac Eiddo).* | (508) | 31 |

---------------------------

**ATODIAD B**

**Manylion Ail-broffilio**

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | **2021/22 £'000** | **2022/23 £'000** |
|---|---|---|
| Grant Cynnal a Chadw Ysgolion (disodli ariannu yn 21/22, sy'n llithro i 22/23 i'w ddyrannu) *(Adran Addysg; Corfforaethol)* | (1,575) | 1,575 |
| Cynlluniau Ysgolion (Ganrif 21 ac Eraill) *(Adran Addysg)* | (6,462) | 6,462 |
| Grant Cyfalaf Prydau Ysgol am Ddim (disodli ariannu yn 21/22, sy'n llithro i 22/23) *(Adran Addysg)* | (1,122) | 1,122 |
| Cynlluniau Adfywio *(Adran Economi a Chymuned)* | (279) | 279 |
| Cynlluniau Morwrol, Parciau Gwledig a Hamdden (nifer o grantiau yn disodli ariannu sy'n llithro i 22/23) *(Adran Economi a Chymuned)* | (652) | 652 |
| Cynllun Buddsoddiad Neuadd Dwyfor (grantiau yn disodli adnodd sy'n llithro) *(Adran Economi a Chymuned)* | (521) | 521 |
| Cynlluniau Grant Cyfalaf Gofal Plant *(Adran Plant a Theuluoedd)* | (765) | 765 |
| Cynllun Canolfan Integredig Maesgeirchen *(Adran Plant a Theuluoedd)* | (221) | 221 |
| Grant Ychwanegol Cronfa Gofal Canolraddol (ICF) (adnodd a ddisodlir yn llithro) *(Adran Plant a Theuluoedd)* | (520) | 520 |
| Hwb Iechyd a Gofal Penygroes *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (2,500) | 2,500 |
| Cynlluniau Cartrefi Preswyl, Sefydliadau Gofal Dydd Oedolion a chynlluniau eraill *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (2,152) | 2,152 |
| Adnewyddu Cerbydau *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Adran Ymgynghoriaeth; Adran Amgylchedd)* | (3,038) | 3,038 |
| Cynlluniau Peirianneg, Strwythurau, Ffyrdd a Bwrdeistrefol *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)* | (1,681) | 1,681 |
| Cynlluniau Atal Llifogydd a Traenio Tir *(Adran Ymgynghoriaeth)* | (7,240) | 7,240 |
| Cynlluniau Trafnidiaeth *(Adran Amgylchedd)* | (3,196) | 3,196 |

| | | |
|---|---|---|
| Gwelliannau Trefol a Chynlluniau Gwledig *(Adran Amgylchedd)* | (143) | 143 |
| Ail-wynebu Meysydd Parcio *(Adran Amgylchedd)* | (219) | 219 |
| Pwyntiau Gwefru Cerbydau *(Adran Amgylchedd)* | (957) | 957 |
| Systemau TG arbenigol Adran Amgylchedd *(Adran Amgylchedd)* | (72) | 72 |
| Cynlluniau Grantiau Tai ac Eraill *(Adran Tai ac Eiddo)* | (2,324) | 2,324 |
| Cynlluniau Strategaeth Tai a Digartrefedd *(Adran Tai ac Eiddo)* | (7,596) | 7,596 |
| Grantiau newydd Llywodraeth Cymru yn y maes Tai (adnodd a ddisodlir yn llithro) *(Adran Tai ac Eiddo)* | (3,953) | 3,953 |
| Cynlluniau Addasiadau Swyddfeydd *(Adran Tai ac Eiddo)* | (153) | 153 |
| Cynlluniau Cynnal a Chadw wedi eu cyfalafu *(Adran Tai ac Eiddo)* | (222) | 222 |
| Cynlluniau Rheoli Carbon y Cyngor *(Adran Tai ac Eiddo)* | (1,368) | 1,368 |
| Cynllun Gwaredu Asbestos *(Adran Tai ac Eiddo)* | (491) | 491 |
| Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol *(Adran Tai ac Eiddo)* | (2,925) | 2,925 |
| Adnewyddu Cyfarpar TG *(Adran Cyllid)* | (1,045) | 1,045 |
| Adnoddau Cynllun Asedau heb ddyrannu tan 22/23 *(Corfforaethol)* | (1,328) | 1,328 |
| Grant Cyffredinol Ychwanegol 21/22 *(Corfforaethol)* | (3,213) | 3,213 |

**Noder:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

---------------------------